

Ffydd y wraig o Ganaan (Mth 15:21-28)

Gweddi wrth ddynesu

Arglwydd Dduw, wrth i ni ddod o'th flaen yn awr,
agorwn ein calonnau i ti.

Helpa ni i weld ein bod yn gallu dysgu cymaint gan eraill,
hyd yn oed gan y rhai yr ydym yn meddwl nad oes gennym
lawer yn gyffredin â hwy.

Gwna ni'n barod i sefyll ar wahân i'r dorf,
i wrando ar dy lais, ac i weithredu arno.

Amen.

Ctrl a Chlic

<https://youtu.be/w8kvdI-iIyg> Bara Angylion Duw - Stuart Burrows

Ffydd y Gananees (Mth 15:21-28)

Gadawodd Iesu Galilea ac aeth i ffwrdd i gylch Tyrus a Sidon. Daeth gwraig ato (gwraig o'r ardal o dras Canaaneaidd), a gweiddi, "Arglwydd, Fab Dafydd, helpa fi! Mae fy merch yn dioddef yn ofnadwy am ei bod yng ngafael cythraul."

Wnaeth Iesu ddim ymateb o gwbl. A dyma'i ddisgyblion yn dod ato a phwyso arno, "Anfon hi i ffwrdd, mae hi'n boen yn dal ati i weiddi ar ein holau ni!"

Felly atebodd Iesu hi, "Dim ond at bobl Israel, sydd fel defaid ar goll, ces i fy anfon."

Ond dyma'r wraig yn dod a phenlinio o'i flaen. "Helpa fi, Arglwydd!" meddai.

Atebodd Iesu, "Dydy hi ddim yn iawn i bobl daflu bwyd y plant i'r cŵn."

"Digon gwir, Arglwydd," meddai'r wraig, "ond mae hyd yn oed y cŵn yn bwyta'r briwsion sy'n disgyn oddi ar fwrdd eu meistr."

Atebodd Iesu, "Wraig annwyl, mae gen ti lot o ffydd! Cei beth ofynnaist amdano." A dyna'r union adeg y cafodd ei merch ei hiacháu.

Myfyrdod

Mae'n anodd weithiau gweld ergyd rhai o straeon y Testament Newydd, ac nid yw bob amser yn eglur beth oedd gan yr efengylwyr mewn golwg wrth eu cofnodi.

Nid bwriad Mathew yma, does bosibl, oedd rhoi argraff anffafriol o Iesu Grist. Y mae'n cofnodi'r hanes yn union wedi adrodd am y gwrthdaro rhwng Iesu â'r Phariseaid. Neges bendant Iesu wrthynt hwy oedd nad yr hyn yr oeddynt yn fwyta oedd yn eu gwneud yn aflan ond yr hyn yr oeddynt yn ei ddweud. Mae bwyd, meddai, yn cael ei dreulio gan y corff ond daw geiriau o'r galon.

Yna, wedi i Iesu symud i ardal arall cawn gan Mathew hanes gwraig yn dod at Iesu i ofyn am gymorth. Y mae'n ymwybodol o'r ffordd yr oedd yn cael ei hystyried gan yr Iddewon, ond mae'n benderfynol a di-ildio, a'i hawydd i gael iachau ei merch gymaint fel nad yw'n cymryd ei digio gan ddiffyg ymateb Iesu.

Erbyn diwedd y stori gwelir;

- bod gwraig wedi cael gwrandawriad, a hynny mewn cymdeithas lle na fyddai dynion yn siarad â merched yn gyhoeddus.
- bod gwraig estron fu'n ddigon dewr i ddod ar ofyn Iesu yn cael ei dymuniad.
- bod un nad oedd yn perthyn i'r genedl Iddewig yn cael rhan yn y wledd yr oedd Duw yn ei darparu i'w bobl.

Hanes am gynnwys nid gwrthod yw'r stori, ac mae'n ein hatgoffa ninnau o ba mor llydan yw'r efengyl, ac yn hynny o beth rhydd hyder a gobaith i bawb ohonom. Meddai'r proffwyd Eseia;

A'r dieithriaid sy'n glynu wrth yr ARGLWYDD,
yn ei wasanaethu ac yn caru ei enw,
sy'n dod yn weision iddo ef,
yn cadw'r Saboth heb ei halogi
ac yn glynu wrth fy nghyfamod—
dygaf y rhain i'm mynydd sanctaidd,
a rhof iddynt lawenydd yn fy nhŷ gweddi,
a derbyn eu poethoffrwm a'u haberth ar fy allor;
oherwydd gelwir fy nhŷ yn dŷ gweddi i'r holl bobloedd,"
medd yr Arglwydd DDUW,
sy'n casglu alltudion Israel.

"Casglaf ragor eto at y rhai sydd wedi eu casglu."

(Eseia 56:6-8);



Mae'r stori hefyd yn pwysleisio pa mor bwysig yw gweld bywyd o safbwynt rhywun arall a gwrando ar ein gilydd.

Gweddi o gyffes

Arglwydd, weithiau byddwn fel petaem yn gwrando ar eraill yn hytrach nag arnat ti.

Rydym yn cyfaddef bod ein sylw yn aml ym mhobman ond ble y dylai fod.

Maddau i ni, Arglwydd, am golli cyfleoedd.

Weithiau bydd ein pryderon ein hunain yn tynnu ein sylw yn ormodol.

Ni fyddwn yn poeni am neb ond ni ein hunain,
ac ni fyddwn yn gwrando ar neb ond y rhai sy'n dweud yr hyn
yr ydym am ei glywed.

Maddau i ni, Arglwydd, am golli cyfleoedd.

Weithiau fyddwn ni ddim yn gwrando ar bobl am nad ydym yn eu hoffi,

neu am eu bod yn wahanol i ni.

Weithiau byddwn yn meddwl drwg.

Maddau i ni, Arglwydd, am golli cyfleoedd.

Weithiau fyddwn ni ddim yn gwrando arnat ti, Arglwydd,
am ein bod yn rhy brysur,

neu'n ofni clywed yr hyn yr wyt am ei ddweud wrthym.

Maddau i ni, Arglwydd, am golli cyfleoedd.

Amen.

Emyn 'Pan fwyf yn teimlo'n unig' (C.Ff 758)

Pan fwyf yn teimlo'n unig lawer awr
heb un cydymaith ar hyd llwybrau'r llawr,
am law fy Ngheidwad y diolchaf i
â'i gafael ynof er nas gwelaf hi.

Pan fyddo beichiau bywyd yn trymhau
a blinder byd yn peri im lesgáu,
gwn am y llaw a all fy nghynnal i
â'i gafael ynof er nas gwelaf hi.

Pan brofais archoll pechod ar fy nhaith
a minnau'n ysig ŵr dan gur a chraith,
ei dyner law a'm hymgeleddodd i
â'i gafael ynof er nas gwelaf hi.

A phan ddaw braw yr alwad fawr i'm rhan
a'r cryfaf rai o'm hamgylch oll yn wan,
nid ofnaf ddim, ei law a'm tywys i
â'i gafael ynof er nas gwelaf hi.

JOHN ROBERTS, 1910-84

Ctrl a Chlic

<https://youtu.be/JmujadUHkpY> Trebor Edwards

Gweddi o eiriolaeth

Gofynnodd y wraig oedd yn Gananees am dy help.
Cymaint oedd yn caru ei merch, ac roedd mewn angen mor
ddifrifol,

fel nad oedd yn fodlon rhoi'r gorau iddi nes cael ei hateb.

Gweddiwn mewn ffydd.

Clyw ni ac ateb ein cri, Arglwydd bendigaid.

Arglwydd, boed i ni ddysgu gan y wraig hon,
sut i'th wasanaethu yn ddisgwylgar, yn amyneddgar, yn ddyfal,
yn benderfynol.

Boed i ni sefyll dros ein hargyhoeddiadau pan fyddwn yn credu
o ddifrif ein bod yn gwneud dy ewyllys di.

Gweddiwn mewn ffydd.

Clyw ni ac ateb ein cri, Arglwydd bendigaid.

Gweddiwn heddiw dros y rhai sy'n teimlo eu bod yn cael eu
heithrio, beth bynnag eu sefyllfa, beth bynnag fo'r rheswm:
dros garcharorion, ffoaduriaid, y digartref;
dros y gwael, y rhai sy'n dioddef o afiechyd meddwl;
dros unrhyw un sy'n teimlo eu bod ar y tu allan.

Gweddiwn mewn ffydd.

Clyw ni ac ateb ein cri, Arglwydd bendigaid.

Gweddïwn drosom ein hunain pan fydd ein ffydd yn wan, neu pan fyddwn yn teimlo nad ydym yn perthyn.

Gweddïwn mewn ffydd.

Clyw ni ac ateb ein cri, Arglwydd bendigaid.

Amen.

Y Fendith

Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw a chymdeithas yr Ysbryd Glân fod gyda ni oll. **Amen.**